

# Dechrau Blwyddyn

## Darllen: Effesiaid 2:11–13

Blwyddyn newydd Dda! Dyma ni'n croesi'r terfyn o'r hen flwyddyn i ddirgelion blwyddyn newydd. Fe all croesi terfynau wneud dau beth – creu cyffro a chwilfrydedd. Profiad amheuthun ydi gadael cynefin gwlad a theithio dros derfynau i wledydd eraill – profi diwylliant, traddodiadau ac ieithoedd newydd. Beth am derfynau plentyndod, cartref ac aelwyd? Pan oeddwn i'n blentyn, caem fynd allan i chwarae a phrofi terfynau diben-draw; ond erbyn heddiw mae terfynau plant yn gyfyngedig iawn oherwydd pryderon ynghylch iechyd a diogelwch. Beth am ein terfynau crefyddol? Y norm ydi chwarae'n saff oddi mewn i'n capel a'n henwad ein hunain, heb gyffwrdd â dulliau addoli enwadau eraill na dysgu oddi wrthynt. Credai'r Iddew fod terfynau daearyddol i bresenoldeb Duw a'i fendith. Adeg geni Iesu, dangosodd y seryddion o'r dwyrain fod y neges ar gyfer yr holl fyd, a dyna oedd cenhadaeth Iesu gydol ei weinidogaeth – nid at genedl Israel yn unig y daethai. Ac yn hanes cynnar yr Eglwys, penderfyniad chwyldroadol oedd derbyn y cenedloedd i freintiau'r Israel Newydd. Gall croesi terfynau hefyd greu ansicrwydd. Gwlad newydd, pobl newydd a diwylliant a thraddodiadau newydd; plentyndod bach yn gadael sicrwydd ei aelwyd ac yn mynd i'r ysgol am y tro cyntaf; gweithiwr yn dechrau ar ei swydd gyntaf; a myfyriwr yn mynd i goleg a gadael cartref am y tro cyntaf. A beth am derfynau ymddeoliad a wynebu salwch a gwaeledd?

Bu'r croesi i diriogaeth newydd, gyda'i gyffro a'i ansicrwydd, ynghlwm wrth gynllun Duw trwy'r oesoedd. Mae hanes Abram yn dangos hynny: Duw yn ei alw i adael ei gynefin a mynd i wlad a oedd yn llifeirio o laeth a mêl. Yr un yw neges Llyfr Jona, sef bod Duw'n gofalu am y rhai sydd y tu hwnt i ffiniau cydnabyddedig. A dyma a geir yn ail ran y Testament Newydd, yn Llyfr yr Actau a llythyrau Paul: yr Eglwys Fore – a oedd â'i gwreiddiau ar y cychwyn yn Jerwsalem – trwy weithgarwch Paul yn mynd â'r Efengyl drwy diriogaeth y byd Rhufeinig a chyrraedd canolbwynt yr

ymerodraeth fawr yn y brifddinas, Rhufain. Gwelodd Simeon oedrannus y posibilrwydd hwn yn y baban Iesu, a chyhoeddi ei fod 'yn oleuni i oleuo'r cenhedloedd'.

Gwaith yr Eglwys Gristnogol ym mhob oes ydi cenhadu, ac ystyr hynny yw croesi terfynau yn enw cariad Duw. Nid y genhadaeth dramor yn benodol ond y genhadaeth gartref, sef cenhadu yn ein bro, ar ein stryd ac yn y gymdogaeth ar garreg ein drws. Nid digon heddiw yw dweud fod drws yr eglwys neu'r capel yn agored led y pen i groesawu pawb sy'n awyddus i ddod atom. Ydi'r math yna o agwedd yn cyd-fynd â 'cheisio'r colledig'? Na, mynd i chwilio am y ddafad a wnaeth y bugail, a 'sgubo'r tŷ i gyd a wnaeth y wraig. A mynd allan i chwilio a chymell a wnaeth y tad. Ac onid chwilio'n ddyfal a wnaeth y seryddion?

Cawn ein galw ym mhob cyfnod i groesi a chwalu'r terfynau sy'n niweidiol i'r Efengyl. Cawn ein galw i anturiaethau a phrofiadau newydd.

### **Myfyrdod pellach:**

Pa mor barod ydych chi i groesi terfyn eich addoldy neu derfyn eich enwad?

Ydi cenhadaeth gartref yn uchel ar eich agenda?